**South Wales**
Fire and Rescue Service

Gwasanaeth Tân ac Achub
**De Cymru**

# Improvement Plan 2011 / 2012 - Public Summary

## To make our communities the safest places to live, work and visit

***The Improvement Plan explains how we are performing across all the vital services we provide to our communities in South Wales and outlines our plans and priorities for the coming year. Our 2011/2012 Improvement Plan is available on our website www.southwales-fire.gov.uk.***

*This summary poster provides an overview of our improvement objectives, full details can be found in the Plan together with details of our performance against all of our core and strategic performance indicators.*

### Our Improvement Objectives

Our Improvement Objectives are grouped under five themes. Below is a brief summary of how we achieved them in 2010/2011, what we have undertaken in the current year, 2011/2012 and what we plan to do in the future, 2012/2013.

#### 1. Our Communities

*What we achieved in 2010/2011*

We implemented and supported the Welsh Language Policy and Equality and Diversity Initiatives. A significant number of people from the minority ethnic business communities attended specially organised events, raising their awareness of the requirements of the Fire Safety Order. This will have the effect of further reducing risks from fire in our diverse communities.

- The nationally acclaimed 'Bernie' project proved very successful in dealing with grass arson by delivering a range of activities for young people and also increasing the level of education of the consequences of grass arson and increasing fire patrols in possible areas affected.

*What we are going to do this year 2011/2012*

- Working proactively both individually and in collaboration with other organisations in order to further reduce deaths and injuries from fires and road traffic collisions.
- Utilising FSEC risk modelling and MOSAIC data in order for areas of high risk based on dwellings and demographics to be identified and enable more effective targeting of safety initiatives to maximise resources most efficiently.

**For 2012/2013 - 'To reassure, educate and protect our Community from the effects of fire, road traffic collisions and other emergencies as they occur.' by:**

- Responding quickly whenever needed at incidents.
- Collaborating with partners whenever necessary to deliver services.

#### 2. Our People

*What we achieved in 2010/2011*

- We created an annual training plan specifically for Fire Safety. The training plan for Fire Safety staff has ensured that our audit officers are appropriately trained in the requirements of the Fire Safety Order and other relevant legislative and non-legislative fields. This ensures that the business communities of South Wales have contact with competent Fire Safety Officers. As our Audit Officers become increasingly competent, we have seen a measurable increase in the number of audits completed.
- We have developed training activities to ensure that where possible uniformed and support staff share learning experiences together. E.g. Institute of Leadership and Management courses, Trauma Care courses and Equality Impact Assessment courses.

*What we are going to do this year 2011/2012*

- Utilise our workforce creatively to ensure we have continuity of business.
- Engage widely with the public and with our current workforce.

**For 2012/2013 - 'To continue to develop a responsive and creative workforce who practice our values' by:**

- Utilising our workforce creatively to ensure we have continuity of business.
- Engaging widely with the public and with our current workforce.

#### 3. Our Resources

*What we achieved in 2010/2011*

- We have extended collaboration with the other two Welsh FRS' across a range of HR activities. This has resulted in reduced costs from budgets showing direct savings to the public
- Through the submission of robust business cases the Service has secured financial support from Welsh Government to enhance the facilities within the Service to support the development of technical skills of our people.

*What we are going to do this year 2011/2012*

- Exploring the effectiveness and future need of each second pumping appliance including the location, incident data, call rate and crewing arrangements.
- Exploring the effectiveness of each special appliance including the location, incident data, call rates and crewing arrangements.

**For 2012/2013 - 'To ensure that our resources and assets are utilised effectively to support service delivery' by:**

- Critically analysing the resources needed to do the job.
- Allocating resources according to risk and need.

#### 4. Our Organisation

*What we achieved in 2010/2011*

- We improved our absence management policies and procedures resulting in greater availability of personnel and reduced costs to the public in terms of sickness absence.
- We increased our involvement with Local Authorities and the Voluntary Sector to gain quality referrals for those most at risk from injury and/or death from accidental dwelling fires. As a result of this activity we have created a generally safer environment by setting up 28 partnerships since August 2010 which have delivered 5,712 Home Fire Safety Checks to those most at risk from injury/death from accidental dwelling fires.

*What we are going to do this year 2011/2012*

- Reviewing and streamlining our head office support services systems and processes to identify where efficiency savings can be made.
- Identifying and releasing efficiency savings that may arise through challenges to organisational structures and internal services.

**In 2011/2012 - 'To improve internal service delivery ensuring the most effective use of both financial and people resources' by:**

- Adopting a structured systems thinking approach to our processes.
- Identifying and eliminating waste.

#### 5. Sustainability

*What we achieved in 2010/2011*

- As a service SWFRS complies with the International Financial Reporting Standards and continue to work towards the achievement of level 3 of the Sustainable Procurement Standard. We also engage with industry experts to identify more effective ways of reducing our waste and the impact that its disposal has on the environment.
- We clearly identify and organise Fire Safety transport needs. This has resulted in a decrease in the amount of road travel incurred both in terms of private mileage by Audit Officers travelling to a centralised place of work and also business travel as audit officers are obtaining transport closer to the point of service delivery. Although not quantifiable, this has resulted in reduced emissions and an anticipated reduction in fuel bills.

*What we are going to do this year 2011/2012*

- Undertaking community education initiatives with youth groups and vulnerable adults.
- Increased working with partner organisations to achieve joint objectives and ensure safer communities.

**In 2012/2013 - 'To promote a sustainable organisation that contributes to sustainable local communities' by:**

- Continuing to protect our diverse communities and the built and natural environment.
- Implementing a Sustainable Development Strategy.

#### Comments and Questions

If you have any comments or questions about the Improvement Plan please contact the Performance Planning Unit on:

**Tel:** 01443 232000
**Email:** performance@southwales-fire.gov.uk
**Post:** South Wales Fire and Rescue Service Headquarters,
Forest View Business Park, Llantrisant, CF72 8LX

***We appreciate feedback at any time from the public, partner agencies and our workforce on our future priorities and service delivery generally.***

# Cynllun Gwella 2010 / 2011 - Crynodeb Cyhoeddus

## Gwneud ein cymunedau'r llefydd mwyaf diogel i fyw, gweithio ac ymweld â hwy

***Mae'r Cynllun Gwella hwn yn egluro sut yr ydym yn perfformio ar draws yr holl wasanaethau bywyd a ddarparwn i gymunedau De Cymru ac yn amlinellu ein cynlluniau a'n blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn sy'n dod. Mae ein Cynllun Gwella 2011/2012 ar gael ar ein gwefan www.southwales-fire.gov.uk.***

*Mae'r poster crynhoi yn darparu trosolwg o'n hamcanion gwella - gellir canfod y manylion o fewn y Cynllun ynghyd â manylion ein perfformiad o'u cymharu â'n holl ddangosyddion perfformiad craidd a strategol.*

### Ein Hamcanion Gwella

*Cyfunwyd ein Hamcanion Gwella i bum thema. Ceir crynodeb byr isod o'r modd y cyflawnwyd hwy yn 2010/2011, beth rydym wedi ymgymryd i'w wneud yn y flwyddyn gyfredol, 2011/2012 a beth ydym yn cynllunio i wneud yn y dyfodol, 2012/2013.*

#### 1. Ein Cymunedau

*Beth a gyflawnwyd gennym yn 2010/2011*

Gweithredwyd a chefnogwyd Polisi Iaith Gymraeg a Mentrau Cydraddoldeb ac Amrywiaeth gennym. Mynychodd nifer sylweddol o bersonau cyfrifol o blith cymunedau busnes y lleiafrifoedd ethnig ddigwyddiadau a drefnwyd yn arbennig, gan godi 'u hymwybyddiaeth o ofynion y Gorchymyn Diogelwch Tân. Effaith hyn fydd lleihau risg tân yn y cymunedau hynny sydd eisioes wedi profi'n anodd i'w cyrraedd.

- Profodd prosiect 'Bernie', a gafodd gydnabyddiaeth cenedlaethol, yn llwyddiannus tu hwnt mewn perthynas â delio â thanau gwair bwriadol drwy gyflwyno ystod o weithgareddau ar gyfer pobl ifanc yn ogystal â chynyddu lefel addysg canlyniadau tanau gwair bwriadol a chynyddu patrolau tân mewn ardaloedd a effeithir o bosib.

*Beth fyddwn ni'n gwneud eleni 2011/2012*

- Gweithio'n rhagweithiol, boed yn unigol neu mewn cydweithrediad â sefydliadau eraill, er mwyn lleihau ymhellach nifer y marwolaethau a'r anafiadau rhag tanau a gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd.
- Defnyddio modelu risg FSEC a data MOSAIC er mwyn adnabod ardaloedd o risg uchel yn seiliedig ar anheddau a demograffeg, ynghyd â galluogi targedu mwy effeithiol mentrau diogelwch i eithafu adnoddau mewn modd mwy effeithlon.

**Ar gyfer 2012/2013 ein Amcan Gwella yw - 'Cysuro, addysgu a diogelu ein Cymuned rhag effeithiau tân, gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd ac argyfyngau eraill pan fyddant yn digwydd' drwy:**

- Ymateb yn sydyn i ddigwyddiadau yn ôl yr angen.
- Cydweithredu â phartneriaid yn ôl yr angen er mwyn darparu gwasanaethau.

#### 2. Ein Pobl

*Beth a gyflawnwyd gennym yn 2010/2011*

- Crëwyd cynllun hyfforddiant blynyddol yn benodol ar gyfer Diogelwch Tân. Sicrhaodd y Cynllun hyfforddiant ar gyfer staff Diogelwch Tân y cafodd ein swyddogion archwilio dderbyn hyfforddiant yn ôl gofynion y Gorchymyn Diogelwch Tân, ynghyd â meysydd perthnasol deddfwriaethol ac anneddfwriaethol eraill. Sicrhaodd hyn bod gan gymunedau busnes De Cymru gysylltiad â Swyddogion Diogelwch Tân cymwys. Wrth i'n Swyddogion Archwilio dyfu'n fwyfwy cymwys, gwelwyd cynydd mesuradwy yn nifer yr archwiliadau a gyflawnwyd.
- Datblygwyd gweithgareddau hyfforddi gennym er mwyn sicrhau bod staff gwisg a di-wisg yn rhannu profiadau dysgu â'i gilydd lle bo'n bosib, e.e. Cyrsiau Institute of Leadership and Management, cyrsiau Trauma Care a chyrsiau asesiad effaith Cydraddoldeb.

*Beth fyddwn ni'n gwneud eleni 2011/2012*

- Defnyddio ein gweithlu mewn modd creadigol er mwyn sicrhau y bydd gennym barhad busnes.
- Ymgysylltu yn eang â'r cyhoedd a'n gweithlu cyfredol.

**Ar gyfer 2012/2013 ein Amcan Gwella yw - 'Parhau i ddatblygu gweithlu ymatebol a chreadigol sy'n ymarfer ein gwerthoedd' drwy:**

- Ddefnyddio ein gweithlu mewn modd creadigol er mwyn sicrhau y bydd gennym barhad busnes.
- Ymgysylltu yn eang â'r cyhoedd a'n gweithlu cyfredol.

#### 3. Ein Hadnoddau

*Beth a gyflawnwyd gennym yn 2010/2011*

- Ymestynwyd y cydweithrediad rhyngddom â'r 2 GTA Cymreig arall ar hyd ystod o weithgareddau Adnoddau Dynol. Canlyniad hyn oedd lleihad mewn costau o fewn cyllidebau, sy'n golygu arbedion uniongyrchol i'r cyhoedd.
- Drwy gyflwyniad achosion busnes grymus, sicrhaodd y Gwasanaeth gymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru i ategu at y cyfleusterau sydd eisioes o fewn y Gwasanaeth er mwyn cynorthwyo yn natblygiad sgiliau ein pobl.

*Beth fyddwn ni'n gwneud eleni 2011/2012*

- Archwilio effeithiolrwydd ac anghenion i'r dyfodol ar gyfer pob un peiriant pwmp eilaidd gan gynnwys lleoliad, data sy'n berthnasol i'r digwyddiad, graddfa galwadau a threfniadau criwio.
- Archwilio effeithiolrwydd pob un peiriant arbennig gan gynnwys lleoliad, data sy'n berthnasol i'r digwyddiad, graddfa galwadau a threfniadau criwio.

**Ar gyfer 2012/2013 ein Amcan Gwella yw - 'Sicrhau bod ein hadnoddau a'n hasedau'n cael eu defnyddio'n effeithiol ac yn effeithlon er mwyn cefnogi darparu gwasanaeth' drwy**

- Ddadansoddi yr adnoddau angenrheidiol ar gyfer cyflawni'r gwaith yn feirniadol.
- Ddyrannu adnoddau yn ôl risg ac angen.

#### 4. Ein Sefydliad

*Beth a gyflawnwyd gennym yn 2010/2011*

- Cafwyd gwelliant yn ein polisiau a'n dulliau rheolaeth absenoldeb a olygai cynnydd mewn argaeledd personél a lleihad mewn costau i'r cyhoedd yn nhermau absenoldeb oherwydd salwch.
- Cafwyd cynnydd yn ein cyfranogaeth â'r Awdurdodau Lleol a'r Sector Gwirfoddol er mwyn ennill atgyfeiriadau o safon i'r rhai hynny sydd â'r risg fwyaf o gael eu hanafu neu/a marwolaeth o achos i Danau Damweiniol mewn Anheddau. O ganlyniad i'r gweithgaredd hwn, rydym wedi creu amgylchedd mwy diogel yn gyffredinol, drwy osod ar waith hyd at 28 o bartneriaethau ers mis Awst 2010 a drosglwyddodd 5,712 o Archwiliadau Tân yn y Cartref i'r rhai hynny sydd fwyaf o dan fygythiad rhag anafiadau/marwolaeth gan Danau Damweiniol mewn Anheddau.

*Beth fyddwn ni'n gwneud eleni 2011/2012*

- Adolygu a lliflinio gwasanaethau cynnal a phrosesau ein prif swyddfa er mwyn adnabod lle medrwn wneud arbedion effeithlonrwydd.
- Adnabod a rhyddhau arbedion effeithlonrwydd gall godi yn sgil herio strwythurau sefydliadol a gwasanaethau mewnol.

**Ar gyfer 2012/2013 ein Amcan Gwella yw - 'Gwella prosesau busnes mewnol i sicrhau'r defnydd mwyaf effeithiol ac effeithlon o adnoddau ariannol ac adnoddau dynol' drwy:**

- Fabwsiadu agwedd meddwl trwy systemau strwythurol i'n prosesau.
- Adnabod a dileu gwastraff.

#### 5. Cynaliadwyedd

*Beth a gyflawnwyd gennym yn 2010/2011*

- Fel Gwasanaeth, mae GTADC yn cydymffurfio â'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol ac yn parhau i weithio tuag at gyflawni lefel 3 o'r Safon Caffael Cynaliadwy. Yn ogystal, rydym yn ymgysylltu ag arbenigwyr diwydiannol er mwyn adnabod ffyrdd mwy effeithiol o leihau ein gwastraff a'r effaith mae ei waredu yn ei gael ar yr amgylchedd.
- Rydym yn adnabod yn eglur ac yn trefnu anghenion trafnidiaeth Diogelwch Tân. Achosodd hyn leihad ym maint teithio yn nhermau milltiroedd preifat gan Swyddogion Archwilio yn teithio i ganolfan waith yn ogystal â theithio busnes, gan fod Swyddogion archwilio yn canfod ffyrdd o deithio sy'n agosach i'r man trosglwyddo. Er yn ddifesur, canlyniad hyn yw lleihad mewn tarthiadau a lleihad disgwyliedig mewn biliau tanwydd.

*Beth fyddwn ni'n gwneud eleni 2011/2012*

- Ymgymryd â mentrau addysg cymunedol gyda grwpiau ieuenctid ac oedolion archolladwy.
- Cynyddu cydweithredu â sefydliadau partneriaethol i gyflawni amcanion ar y cyd ac i sicrhau cymunedau diogelach.

**Ar gyfer 2012/2013 ein Amcan Gwella yw - 'Hyrwyddo sefydliad cynaliadwy sy'n cyfrannu at gymunedau lleol cynaliadwy' drwy:**

- Barhau i warchod ein cymunedau amrywiol a'r amgylchedd adeiledig a naturiol.
- Weithredu Strategaeth Datblygu Cynaliadwy

#### Sylwadau a Chwestiynau

Os oes gennych unrhyw sylwadau neu gwestiynau ynglyn â'r Cynllun Gwella yna cysylltwch â'r Uned Cynllunio Perfformiad ar:

**Rhif Ffôn:** 01443 232000
**E-bost:** perfformiad@decymru-tan.gov.uk
**Post:** Pencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru,
Parc Busnes Forest View, Llantrisant, CF72 8LX

***Rydym yn gwerthfawrogi adborth ar unrhyw adeg oddi wrth y cyhoedd, asiantaethau partner a'n gweithlu ar ein blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol â'r ffordd yr ydym yn darparu gwasanaeth yn gyffredinol.***